



Cymydau Llŷn – Gweinyddiad Canoloesol

Yn ystod yr Oesoedd Canol roedd Gwynedd wedi'i rannu'n weinyddol yn gantrefi, a Llŷn yn un ohonynt.

Yn y 12fed/13egG, yn ystod teyrnasiad Gruffudd ap Cynan ac Owain Gwynedd, cafodd y cantref ei rannu yn dri chwmmwd:

Ar ochr ddwyreiniol Llŷn roedd **Cafflogion**, ac ynddo blwyfi Llanbedrog, Llangian, Botwnnog, Mellteyrn, Llanfihangel Bachllaeth, Penrhos, Carnguwch a Deneio. Yn Deneio (Pwllheli heddiw) roedd y Faerdref. Yma felly roedd y ganolfan weinyddol a llys y tywysog. Yma y câi'r rhenti a'r tollau eu talu mewn arian neu trwy lafur – cario neu atgyweirio. Galwai'r tywysog yma yn ei dro ac yn y dref heddiw mae enwau sy'n ein hatgoffa o'r cysylltiad hwnnw, megis Gadlys a Henlllys. Afloeg un o feibion Cunedda Wledig o'r Hen Ogledd a thad i Eternus, nawddsant Edern, sefydlodd y cwmwd.

Pencadlys gweinyddol cwmwd **Cymydaen** oedd Neigwl, ac ar y gwastatir o dan Blas yn Rhiw, roedd y Maerdref. Ar yr allt fôr yn Uwchmynydd mae Maen Melyn Llŷn (SH139252) roddodd ei enw i gwmwd Cymydaen, 'cwmwd + maen'. Mae ym mhen eithaf y penrhyn ac mae'r cwmwd yn cynnwys plwyfi Penllech, Llangwnnadr, Bryncroes, Llandygwning, Llanengan, Rhiw, Llanfaelrhys ac Aberdaron.

Cwmwd arall oedd **Dinllaen**, lle daw'r enw

Porthdinllaen. 'Dynthlayn' oedd yr enw yn nechrau'r 13egG, sef 'dinas' (caer) + 'Llaen' (enw personol Gwyddelig) gan gyfeirio at y gaer arfordirol ar y penrhyn (SH 275416).

Mae'r enw Porthdinllaen yn awgrymu mai hwn oedd prif harbwr y cwmwd ond yn Nefyn roedd y Faerdref a llys y tywysog.

Mae Dinllaen yn cynnwys plwyfi Pistyll, Nefyn, Edern, Ceidio, Tudweiliog, Llaniestyn, Llandudwen, Boduan a Llannor.

Roedd cant tref (sef fferm unigol), mewn cantref ac roedd enwau fel Hendrefor a Llaur y Dref. Trigai'r Cymro bonheddig yn ei dref ei hun yn un pen i'r stad, sef *pentref* a rhoi inni'r enw Cefn Pentref, a Phentref ym Motwnnog.

Roedd daliad o dir wedi'i etifeddu'n cael ei alw'n *gafael* gan roi i ni Gyfelan yn Llangwnnadr.

Er bod Cymru dan reolaeth coron Lloegr yn dilyn goresgyniad Edward y Cyntaf parhaodd y drefn weinyddol Gymreig am gyfnod. Ond yna daeth Llŷn i gael ei gweinyddu fel rhan o Sir Gaernarfon a buan y daeth Nefyn a Phwllheli i fodolaeth.



Datblygiad Pwllheli



Roedd Pwllheli wedi datblygu'n ganolfan fasnach ymhell cyn codi'r cobiau a ffurfio'r harbwr a byddai llongau'n dod â nwyddau o wledydd tramor. Prif ddiwydiant Pwllheli yn 1786 am ganrif oedd adeiladu llongau – dros 450 ohonynt.

Roedd bri ar bysgota ac mewn un cyfnod roedd galw mawr am lymeirch Pwllheli. Cododd nifer o fân ddiwydiannau cysylltiedig â'r môr yn ogystal â barcdai. Bu'r dref yn enwog am weisg argraffu gan gyhoeddi nifer o bapurau newydd.

Yn niwedd y 19egG roedd Pwllheli'n datblygu i fod yn dref lewyrchus iawn ac yn dilyn codi'r cobiau roedd angen datblygu y tiroedd sych. Erbyn 1882 roedd gan y dref system garthffosiaeth ac aethon nhw â chyflenwad dŵr i'r Morfa.

Prynodd gwŷr dieithr fel William Potts a John Churton dir yno ac mae eu henwau i'w gweld ar strydoedd ym Marian y De. Ymunodd datblygwyr â'i gilydd, i godi tai yno a galw'r ardal yn South Beach (Marian y De). Un o'r gwŷr blaengar hynny oedd Edward Jones a roddodd ei enw i Stryd Edward. Roedd 6ed o Ragfyr 1888 yn ddydd gŵyl ym Mhwellheli, y siopau a'r ysgolion wedi'u cau a bu gorymdaith o'r dref ar hyd y Cob tua glan y môr i osod cerrig sylfaen i'r datblygiad newydd.

Erbyn diwedd y ganrif roedd yno 26 tŷ a dau westy a chynlluniau uchelgeisiol i wneud Pwllheli'n gyrchfan glan y môr amlycaf gogledd Cymru.

Tra oedd hyn yn digwydd ym mhen dwyreiniol y traeth prynodd Solomon Andrews o Gaerdydd dir yn y pen gorllewinol a chafodd y 'tir newydd' ei weddnewid yn llwyr.

Dyddiau Cynnar



Treflan fechan iawn oedd yma yn y 13egG – ugain teulu, dau gwch a nifer o rwydi. Roedd gan lorwerth, y gwŷr cyfoethocaf, dri o ych, naw buwch, dau geffyl, pedair dafad, chwe chrannog o flawd a phedwar crannog o wenith.

Er hynny Pwllheli oedd y faerdref, prif dref a chanolfan weinyddol cwmwd Cafflogion (neu Afloegion) rhan o blwyf Deneio.

Mae amryw o enwau a llefydd ym Mhwellheli heddiw sy'n awgrymu'n gryf y byddai yma lys gan y tywysog – Henlllys i'r gogledd (SH 37573594), y Gadlys yng nghanol y dref (SH 37683517) ac mae'n debygol iawn castell mwnt a beili yn ardal Penmount (SH 37683517).

Roedd trwch poblogaeth Deneio yn byw ar y tir uchel i'r gogledd o'r dref tra bod y gweddill yn byw yn rhan hynaf y dref o gwmpas y Gors.

Yr adeg hynny byddai'r môr yn gorchuddio o rannau isaf Stryd Penlan a Stryd Moch hyd at lan y môr heddiw. Deuai'r llanw i mewn ar draws y Traeth i'r Gors (SH 376353) rhwng Pentrepoeth a'r Stryd Fawr (lle mae Asda heddiw). Hwn oedd y 'Pwll Heli'.

Roedd Carreg yr Imbyll (SH 3863430) yn ynys allan yn y môr ac yn raddol datblygodd twyni tywod ohoni i'r gorllewin ar Garreg y Defaid (SH 34223247) ac i Drwyn Penychain (SH 43583533) i'r dwyrain gan sefydlu Traeth Pwllheli a Glan Môr Abererch.

Ar ddistyll byddai modd croesi yn Rhyd Glai ac yn Rhyd Liniog lle mae Penrhydliniog (SH 37303488) heddiw, a byddai fferi'n rhedeg hefyd.

Yn raddol ymunodd afonydd Penrhos, Rhyd Hir ac Erch â'i gilydd gan arllwys i'r môr ger Tocyn Brwyn a Charreg yr Imbyll.

Roedd y twyni tywod yn graddol gau o gwmpas y dref eto datblygodd fel tref fasnach. Cafodd glanfeydd eu codi ar gyfer y llongau a chobiau.



Y Siarter a Gwrthryfel Owain Glyndŵr



Mae'n debyg bod dylanwad y Normaniaid ar weinyddiaeth Llŷn yn y 12-13fedG ac mai Pwllheli oedd prif dref cwmwd Cafflogion. Ond yn dilyn concwest Edward I, Brenin Lloegr yn 1282 anfonodd swyddogion yma: i brisio a gosod trethi; casglu dirwyon troseddwy; talu am yr hawl i falu ŷd.

Roedd Pwllheli a Nefyn yn eiddo i'r Tywysog Du yng nghanol y 14egG ac fel cydnabyddiaeth am ei wasanaeth rhoddodd y ddwy dref yn 'anrheg' i Nigel de Loryng, un o'i swyddogion. Roedd rhaid i Bwllheli dalu £14 y flwyddyn iddo.

Ar 14 Chwefror 1355 cafodd Pwllheli siarter a gallai ei galw ei hun yn Fwrdeistref. Roedd y trigolion yn 'wyr rhydd' a chanddynt hawliau i gynnal llys barn, carchar, a ffair ddwywaith y flwyddyn – ar Ŵyl Grog (13 Medi) a Gŵyl yr Holl Saint (31 Hydref). Hefyd marchnad wythnosol ar y Sul. Cafodd Caernarfon a Chonwy fwy o hawliau na Phwllheli a Nefyn ond yma roedd y Cymry yn derbyn breintiau uwch na'r Saeson.

Roedd gan y dref ei maer ac mae'r traddodiad yn para hyd heddiw. Doedd y llywodraeth newydd ddim yn boblogaidd ymhlith y trigolion a châi swyddogion y Brenin gryn drafferth i gasglu'r trethi oedd yn ddyledus iddynt.

Gan mai llywodraeth estron oedd yn rheoli ym Mhwllheli ymosododd Owain Glyndŵr ar y dref yn gynnar yn y 15fedG. Yn ôl cofnodion 1409-1411 roedd y dref wedi'i chwalu a'i thrigolion wedi ffoi. Un o hen strydoedd Pwllheli ydi Pentrepoeth a chafodd ei henwi felly am fod Owain Glyndŵr wedi'i llosgi. Yr un fu tynged Nefyn.

Pwllheli – Codi'r Cobiau



Erbyn 1770 roedd tollty yn gwasanaethu'r cei rhwng gwaelod Stryd Moch a Stryd Penlan. Cafodd tri masnachwr o Loegr yr hawl i godi'r cei ar hyd y Traeth a rhwystrodd hwnnw'r môr rhag llifo i'r Gors a sychodd. Erys yr enw 'Traeth' a 'Phen Cei' heddiw.

Ciliodd y môr a datblygodd corsydd i'r gorllewin ac i'r de tua'r Morfa a chreu tiroedd comin.

Yn 1811 er mwyn rheoli'r llanw a chael gwell siâp ar yr harbwr yr ateb oedd codi dau morglawdd – un rhwng Pen-y-lan a'r Morfa Mawr, sef Cob y Dref (SH 37503490) a'r llall rhwng yr Allt Fawr a Glan-y-don, sef Cob Glan-y-don (SH 38203520) ar ochr ddwyreiniol yr harbwr. Wrth i'r afonydd lifo'n gynt i'r môr sychodd y tir y tu cefn iddynt.

Dyma gyfnod codi gwestai fel y 'Crown & Anchor' a'r 'Whitehall' – a pherchennog y gwesty'n hysbysebu fod ganddo gyntiau ymdrochi i'w llogi at lan y môr. Hefyd Neuadd y Dref newydd, tai nobl yn Stryd Penlan a siopau yn Stryd Fawr.

Roedd Pwllheli'n datblygu'n gyflym a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cyrraedd yma.

Ym mhen dwyreiniol y dref roedd yr orsaf, gwta 1km o Ben Cob, pan ddaeth y rheilffordd i Bwllheli yn 1867. Ond daeth galw am y dasg anodd o ymestyn y cledrau i ganol y dref. Bu'n rhaid codi trydydd cob, o Glan-y-Don i Ben Cob gan ffurfio ffin ogleddol i'r harbwr, Cei'r Gogledd (SH 37873521). Mae trêrn Rheilffordd y Cambrian yn dal i redeg arno gan ddefnyddio'r orsaf ym Mhen Cob er 1909.

Llifddorau sy'n rheoli'r afonydd a'r llanw, un ger Lôn Abererch a'r llall ym Mhen Cob gan sicrhau na chaiff y dref ei bodd. Yn y fan honno mae'r Harbwr Bach (SH 37403480) wedi'i greu trwy adeiladu'r Cob Bach (SH 37303465) i ddal llifogydd a llif yr afon ar lanw.

Dyma hwyluso teithio trwy Afonwen i gyfeiriad Porthmadog ac am Gaernarfon.



Cludiant a Thrafnidiaeth



Roedd Pwllheli'n prysuro fel canolfan fasnach yng nghanol y 18fedG. Cafodd ffyrdd tyrpeg eu hadeiladu i gysylltu Pwllheli â'r byd mawr, a bellach doedd dim rhaid dibynnu ar y môr.

Fel hyn y cafodd y ffyrdd eu hadeiladu:

1768 – o Gaernarfon i Bwllheli

1803 – dechrau agor y ffyrdd o Borthdinllaen a Phwllheli i Gricieth

1824 – agor y ffordd o Bwllheli i Lanbedrog.

Ar y ffyrdd hyn daeth y goets fawr i redeg i Gaernarfon. Dechreuodd Coets Tocia redeg o Aberdaron yn 1862, Coets Tir Gwenith trwy Edern i Langwinnadl yn 1890 ac eraill o Nefyn.

Roedd car post dyddiol yn dod o Fangor ers 1822, ac yn 1881 rhedai'n ddyddiol i Aberdaron.

Ond roedd John Williams o Fryncroes yn dosbarthu llythyrau yn 1840 am swllt yr un. Daeth y beic cyntaf i Bwllheli yn 1868 a'r car cyntaf yn 1903 – ei rif CC97.

Bu sawl trafodaeth am agor rheilffordd i Borthdinllaen yn sgil cynlluniau William Alexander Maddocks yn hanner cyntaf y 19egG. Ni chafodd y cynlluniau hynny eu gwireddu ond daeth y rheilffordd i Bwllheli yn 1867. Roedd yr orsaf bryd hynny hanner milltir dda o'r dref lle mae'r groesfan heddiw.

Yn 1909 cafodd y lein ei hymestyn i Ben Cob a chledrau Rheilffordd y Cambrian yn rhedeg fel heddiw ar hyd arfordir Bae Ceredigion i Fachynlleth a thu hwnt.

O gyfeiriad Bangor a Chaernarfon deuai trê'n i LNWR i Afonwen ac uno â'r Cambrian 7km o Bwllheli. Yn 1964 cafodd y lein i Fangor ei chau ond mae'r Cambrian yn dal i redeg a hynny ar hyd un o'r arfordiroedd harddaf Cymru.

Datblygodd Solomon Andrews ei dramffordd a gariai gerrig o Garreg y Defaid i fod yn dram cario pobl rhwng Pwllheli a Llanbedrog a bu'n rhedeg felly o 1897 tan 1927.

Diflannodd y goets fawr yn fuan wedi i'r bysiau gychwyn rhedeg o Bwllheli i bob cyfeiriad. Rhedodd y bws cyntaf i Edern yn 1906 ac ar bnawniau lau âi triplau o gwmpas Llŷn pan fyddai siopau'r dref wedi cau.

Solomon Andrews



Pan oedd Solomon Andrews, gŵr busnes llwyddiannus iawn o Gaerdydd, ar ei wyliau yn Llandudno yn haf 1893 gwelodd fod tir ar werth ym Mhwllheli. Aeth yno ar y trê'n a gweld datblygiad newydd South Beach. I'r gorllewin doedd dim ond tir agored yn ymestyn i gyfeiriad Penrhos a Llanbedrog.

Penderfynodd brynu'r tir oedd ar werth ac erbyn 1895 roedd y West End Hotel wedi'i chodi â cherrig o Garreg y Defaid. Cawsant eu cario yno ar y dramffordd roedd Solomon Andrews wedi'i gosod i redeg ar hyd y twyni.

Tyfodd ardal y West End yn gyflym ond nid tai'n unig a gododd. Roedd yno y 'Recri' â'i gyfleusterau hamdden fel cyrtiau tennis a thrac rasio beics. Yno hefyd roedd siopau a'r 'Assembly Rooms', sef neuadd ddawns a chyngerdd. Cysylltodd y West End efo'r dref â Ffordd Caerdydd a chodi Pont Solomon i groesi afon Rhyd Hir. Doedd dim pall ar ei frwdfrydedd a'i weledigaeth, gymaint felly nes cyflwynodd y cyngor Ryddfrait y Dref iddo yn 1897.

Yn 1896 prynodd Solomon Andrews y tir sy'n ymestyn i Lanbedrog ar yr arfordir gan gynnwys Plas Glyn y Weddw. Bu hyn yn ddatblygiad anturus. Ymestynnodd y dramffordd o Garreg y Defaid i Lanbedrog a buodd hwn yn atyniad arbennig a phoblogaidd iawn.

Yn Awst 1899 trefnodd Solomon Andrews i 300 o'i weithwyr o Gaerdydd ymweld â Phwllheli ar y trê'n. Wedi teithio yno dros nos cawsant ddiwrnod cyfan yn y dref.

Roedd pob math o adloniant yn y 'Recri'. Yn 1911 hedfanodd awyren oddi yno a daeth torfeydd i wyllo'r digwyddiad. Yn anffodus, methodd â chodi dros y wal a chafodd ei chwalu. Dyma gartref Clwb Pêl-droed Pwllheli a bellach mae Canolfan Hamdden Dwyfor yno hefyd.



Tramffyrdd Pwllheli



Pan agorodd Solomon Andrews y dramffordd i redeg yr holl ffordd o Bwllheli i Lanbedrog roedd yn atyniad twristaidd poblogaidd iawn. Ar un cyfnod roedd dros ugain o geir ar gael – rhai ar gyfer tywydd glawog a'r gaeaf. Grôt, sef pedair ceiniog, gostiai taith unffordd a phan oedd yn ei bri rhedai bob hanner awr drwy'r dydd yn yr haf. Bu'n brysur iawn yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1925 a byddai'n orlawn ar ddyddiau gwlyb.

Byddai'n cychwyn o ganol y dref yng ngwaelod Ffordd Caerdydd a'r swyddfa docynnau ar safle siop 'Copi' (SH 37873521). Câi'r teithwyr olygfeydd i'w cofio o fynyddoedd Llŷn, Eryri, Trwyn Cilan ac Ynysoedd Tudwal dros y môr. Yna yn Llanbedrog caent ymweld â Phlas Glyn y Weddw, ei oriel, ei ystafelloedd te a'i neuadd ddawnsio.

Ond yn hydref 1927 chwalodd storm enbyd y dramffordd fel nad oedd modd ei hadfer.

Mae un o'r ceir wedi'i ddiogelu trwy fod yn gwt ieir yn Edern. Yn dilyn erthygl bapur newydd yn 1987 daeth Cyngor Tref Pwllheli a 'British Horse Tram Enthusiasts' i gytundeb ynglŷn â'i adfer a chafodd ei arddangos yn y 'National Tramway Museum' yn Crich, Lloegr am gyfnod. Bellach caiff ei arddangos ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog.

Roedd tram arall ym Mhwllheli hefyd – Tram y Gorfforaeth. Teithiai hwn o Ben Cob ac ar hyd y Cob i'r South Beach. Cafodd ei agor yn 1899 a bu'n weddol lwyddiannus. Ond cafodd ei siwrnai olaf yn 1920 ac mae'r cledrau bellach wedi'u codi.

Sêl Pwllheli



Does dim gwybodaeth am unrhyw sêl gynnar nag arfbais a fu gan Bwllheli. Sonir am sêl yn 1836 gyda gafr arno yn sefyll ar ei dwy goes ôl ond does dim tystiolaeth.

Dywedir fod sêl arall wedi'i darganfod ym Madryn, cartref teulu Love Jones Parry yn 1850au ond ni cheir tystiolaeth bellach o hyn chwaith. Yn ôl adroddiadau llun o eliffant a chastell ar ei gefn a changhennau coed palmwydd o boptu oedd ar y sêl hwnnw a dyna ddefnyddir heddiw ym Mhwllheli.

Mabwysiadwyd sêl cwbl ddieithr nad oes ganddi unrhyw gysylltiad â gorffennol y dref heb fod y hŷn na 160 mlynedd.

Gwelir eliffant a chastell ar arfbeisiau ar draws y Ewrop, e.e. Dumbarton yn yr Alban, Coventry a Bolton yn Lloegr a Catania ar ynys Sicily.

Enwau Strydoedd Pwllheli





Roedd poblogaeth gynnar Pwllheli yn byw o gwmpas y Gors, a'r pwll+heli roddodd ei enw i'r dref (lle mae Asda heddiw). Roeddent yn byw hefyd ym Mhenrallt lle mae mynwent Deneio ac olion Eglwys Beuno.

Roedd y tir gwastad, lle mae'r dref heddiw, unai'n gorsiog, neu'n sychu ar drai yn unig. Yr adeg hynny dwy ffordd fyddai'n cysylltu'r dref â'r byd mawr, sef Penlon Llŷn i gyfeiriad Llŷn, a Phenlon Caernarfon tuag Arfon ac Eifionydd. Roedd modd croesi afon Rhyd Hir a dilyn llwybrau tua Llanbedrog yn Rhydleiniog (Penrhydliniog heddiw).

Roedd traeth Pwllheli gyda'i iard gychod ger stryd y Traeth heddiw (Saesneg: Sand Street. Strand).

Roedd Pentrepoeth (S: North Street) yn cysylltu Penlon Llŷn a Phenlon Caernarfon. Rhedai'r Stryd Fawr, fel y mae heddiw ond ar ei phen i'r môr tua'r man lle mae capel Penmount. Oddi arni roedd Stryd King's Head (enw tafarn) yn rhedeg i Bentrepoeth. Cafodd Stryd y Llan ei chreu wedi adeiladu Eglwys Sant Pedr (1830au) i gysylltu'r eglwys efo Stryd Fawr. Rhedai Stryd Moch (S: Goal Street am mai yma roedd y carchar) tua'r de i'r Maes. Dyma lle câi moch eu gwerthu ar ddiwrnod marchnad. Mae Sgwâr y Farchnad yn cysylltu Stryd Fawr efo Stryd Penlan a honno'n rhedeg i lawr at y Cei, ac yn ddiweddarach Pen Cob.

Roedd y Cei yn y cyfnod hwn yn safle presennol Llys Penlan gyda Stryd Llygod gerllaw – byddai llongau'r Cei yn dynfa iddynt. Yn Saesneg dyma Custom House Square; dyma leoliad y tollty.

Wedi codi'r cobiau yn nechrau 19egG sychodd y gors wastad rhwng y dref a'r môr ac yna cafodd yr Ala ei adeiladu, sy'n rhedeg i'r gorllewin o'r Maes ac aiff Lôn Abererch tua'r dwyrain o waelod Penlon Caernarfon

Yng nghanol y 19egG daeth Lôn Dywod (S: New Street) i gysylltu Pen Cob â gwaelod Stryd Fawr. Llwybr tywodlyd oedd hi cyn hynny. Enw'r sgwâr lle mae'r orsaf yn naturiol yw Pen Cob.

Ar ôl codi'r cobiau daeth hi'n bosibl teithio tua'r môr. Cafodd tai eu codi yn South Beach (Marian y De yn Gymraeg, ond dyw'r enw heb ennill ei blwyf) Ym mhen gorllewinol y traeth roedd datblygiad twristaidd Solomon Andrews yn blaguro. O'r fan honno i'r dref mae Ffordd Caerdydd yn rhedeg.

Yn 1862 datblygodd Allt Salem a rhoi i ni bumed ffordd sy'n arwain i'r dref. Yng nghanol y 20fedG adeiladodd y cyngor nifer o stadau tai cyngor.



Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol yr ardal trwy ymweld â Phorth y Swnt, Aberdaron – Dysgwch fwy am dreftadaeth a datblygiad yr ardal yng nghanolfan dehongli yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.